

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Papur ymchwil

Bil drafft Galw Aelodau Seneddol yn Ôl

Mehefin 2012

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 12/1191
Rhif dogfen:12/030

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Papur ymchwil

**Bil drafft Galw Aelodau Seneddol
yn Ôl**

Mehefin 2012

Alys Thomas

Mae'r papur hwn yn crynhoi cynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig i alw Aelodau Seneddol yn ôl yn achos camwedd difrifol ac yn edrych ar y posibilrwydd o ehangu'r cynigion i ddeddfwrfeydd datganoledig.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Cefndir	1
3.	Y Bil Drafft.....	2
3.1.	Sbarduno deiseb galw yn ôl	2
3.2.	Y ddeiseb.....	3
3.3.	Gwariant a chyllid ar gyfer ymgyrchoedd	3
4.	Y materion sy'n codi	4
4.1.	Cwmpas y pŵer arfaethedig	4
4.2.	Camwedd difrifol.....	5
5.	Darpariaethau'n ymwneud â Chymru a'r Cynulliad.....	7
6.	Prosesau galw yn ôl mewn systemau gwleidyddol eraill	8

Galw Aelodau Seneddol yn Ôl

1. Cyflwyniad

Yn Etholiad Cyffredinol y DU yn 2010 roedd maniffestos y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnwys cynigion ar gyfer galw Aelodau Seneddol yn ôl. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU *Fil Drafft Galw Aelodau Seneddol yn Ôl* ["y Bil drafft"]¹ ym mis Rhagfyr 2011 sydd wedi bod yn destun proses graffu cyn y broses ddeddfu gan Bwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin. Yn ystod y broses hon mae Gweinidogion wedi codi'r posibilrwydd y gellid ymestyn y cynigion i ddeddfwrfeydd datganoledig. Mae'r papur hwn yn amlinellu cefndir y mater yn ymwneud â galw Aelodau Seneddol yn ôl yn y DU; yn amlinellu'r cynigion; yn amlygu'r prif faterion sydd wedi cael eu codi yn ystod y broses graffu a'r hyn y mae Gweinidogion wedi'i ddweud am gymhwyso'r cynigion i ddeddfwrfeydd datganoledig ac mae'n edrych ar brosesau galw yn ôl mewn systemau gwleidyddol eraill.

2. Cefndir

Yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n sail i Lywodraeth Glymblaid y DU, nodwyd:

We will bring forward early legislation to introduce a power of recall, allowing voters to force a by-election where an MP is found to have engaged in serious wrongdoing and having had a petition calling for a by-election signed by 10% of his or her constituents.²

Ym Maniffesto 2010 y Ceidwadwyr nodwyd:

At the moment, there is no way that local constituents can remove an MP found guilty of serious wrongdoing until there is a general election. That is why a Conservative government will introduce a power of 'recall' to allow electors to kick out MPs, a power that will be triggered by proven serious wrongdoing. And we will introduce a Parliamentary Privilege Act to make clear that privilege cannot be abused by MPs to evade justice.³

Roedd maniffesto'r Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn cynnwys ymrwymiad i ddiswyddo Aelodau Seneddol sydd wedi torri'r rheolau.⁴

Cododd y cwestiwn o alw Aelodau Seneddol yn ôl yn sgil y sgandal am dreuliau seneddol a ddaeth i'r amlwg yn 2009. Arweiniodd hyn at nifer o Aelodau Seneddol yn cael eu rhoi ar brawf ac yn cael dedfryd o garchar. Yn y rhan fwyaf o achosion cawsant ddeddfrydau o fwy na 12 mis, a oedd yn golygu eu bod wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau Seneddol o dan a1 o *Ddeddf Cynrychiolaeth*

¹ [Llywodraeth EM, Galw Aelodau Seneddol yn Ôl, Bil Drafft, Cm.8241, Rhagfyr 2011 \[fel ar 27 Ebrill 2012\] \(Saesneg yn unig\)](#)

² [Llywodraeth EM, The Coalition: our programme for Government, Mai 2010 \[fel ar 27 Ebrill 2012\]](#)

³ [Y Blaid Geidwadol, Invitation to join the Government of Britain, 2010 \[fel ar 27 Ebrill 2012\]](#)

⁴ [Maniffesto'r Democratiaid Rhyddfrydol, 2010 \[fel ar 27 Ebrill 2012\] \(Saesneg yn unig\)](#)

y *Bobl 1981*.⁵ Fodd bynnag, cafodd Eric Illsley, yr Aelod Seneddol dros Ganol Barnsley ar y pryd, ei ddedfrydu i 12 mis o garchar. Pe na byddai wedi ymddiswyddo o fod yn Aelod Seneddol, ni fyddai wedi cael ei anghymhwysu o dan Ddeddf 1981 gan ei bod ond yn berthnasol i ddedfrydau o garchar amhenodol neu ddedfryd sy'n hwy na 12 mis.⁶ Roedd teimlad cynyddol y dylai pwerau cryfach fod ar gael i alluogi etholwyr i gael gwared ar Aelodau Seneddol sy'n euog o gamwedd.

3. Y Bil Drafft

Mae'r Bil drafft yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer dull o alw Aelodau Seneddol yn ôl, drwy bennu'r amodau ar gyfer sbarduno deiseb galw yn ôl a model ar gyfer trefnu deiseb.⁷ Er nad yw'n gynnwysedig yn y Bil drafft, bwriedir gwneud darpariaeth ddeddfwriaethol mewn perthynas â rheoleiddio gwariant a rhoddion yn ystod cyfnod y ddeiseb galw yn ôl. Rhoddir crynodebau o'r cynigion hyn isod.

3.1. *Sbarduno deiseb galw yn ôl*

Bydd **deiseb galw yn ôl** yn cael ei sbarduno:

- Pan fydd Aelod Seneddol yn cael ei gollfarnu o drosedd yn y Deyrnas Unedig ac yn cael dedfryd o 12 mis o garchar neu lai (dim ond Aelodau Seneddol sydd wedi cael dedfryd o fwy na 12 mis o garchar sy'n cael eu hanghymhwysu o dan *Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981*); neu,
- Pan fydd Tŷ'r Cyffredin yn penderfynu y dylid galw Aelod Seneddol yn ôl (byddai hwn yn bŵer disgyblu ychwanegol i Dŷ'r Cyffredin).

Bydd dedfrydau gohiriedig o unrhyw hyd yn sbarduno deiseb galw yn ôl, ond nid cadw rhywun ar remand neu ar sail iechyd meddwl yn unig. Dim ond i droseddau a gaiff eu cyflawni ar ôl i'r darpariaethau galw yn ôl ddod i rym y byddai'r amod sy'n gysylltiedig â dedfryd o garchar yn berthnasol.

Ni fydd dedfrydau y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn sbarduno deiseb galw yn ôl o dan yr amod sy'n ymwneud â dedfryd o garchar; ond gallai Tŷ'r Cyffredin ystyried collfarnau o'r fath o dan yr ail amod.

O dan yr amod sy'n ymwneud â dedfryd o garchar, dim ond pan fydd yr Aelod Seneddol wedi mynd ar drywydd ei hawliau i apelio 'mewn pryd' heb i'r gollfarn gael ei gwrthdroi neu heb i'r ddedfryd o garchar gael ei dileu y byddai'r broses ddeisebu yn dechrau.

⁵ [Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981 \(pennod 34\) \[fel ar 27 Ebrill 2012\] \(Saesneg yn unig\)](#)

⁶ [Llywodraeth EM, Galw Aelodau Seneddol yn Ôl, Bil Drafft, Cm.8241, Rhagfyr 2011 \[fel ar 27 Ebrill 2012\] \(Saesneg yn unig\)](#)

⁷ [Llywodraeth EM, Galw Aelodau Seneddol yn Ôl, Bil Drafft, Cm.8241, Rhagfyr 2011 \[fel ar 27 Ebrill 2012\] \(Saesneg yn unig\)](#)

Os bydd y naill amod neu'r llall wedi cael ei fodloni bydd y Llefarydd yn hysbysu'r swyddog canlyniadau y bwriedir dechrau deiseb.

3.2. Y ddeiseb

Mae'r broses ddeisebu'n dechrau gyda'r **Llefarydd yn hysbysu'r swyddog canlyniadau perthnasol**. Y swyddog canlyniadau fydd â'r ddyletswydd gyffredinol o gynnal y broses ddeisebu yn effeithiol.

Gall etholwyr lofnodi'r ddeiseb os bydd eu henwau ar y gofrestr etholiadol ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod llofnodi neu ar y diwrnod y byddant yn llofnodi'r ddeiseb (ar yr amod y gwnaethpwyd eu cais i ymuno â'r gofrestr ar neu cyn dyddiad hysbysiad y Llefarydd) ac os byddai ganddynt hawl i bleidleisio mewn etholiad seneddol y Deyrnas Unedig yn eu hetholaeth. Bydd y rhai a fydd yn cael eu pen-blwydd yn 18 oed yn ystod y cyfnod deisebu yn gallu llofnodi'r ddeiseb.

Dechreuir y ddeiseb galw yn ôl ddwy wythnos ar ôl derbyn hysbysiad y Llefarydd a bydd ar gael i'w llofnodi am wyth wythnos.

Mewn etholaethau ledled y Deyrnas Unedig bydd etholwyr yn gallu llofnodi'r ddeiseb drwy'r post neu drwy'r post drwy ddirprwy. Ym Mhrydain Fawr (h.y. ac eithrio Gogledd Iwerddon) bydd etholwyr hefyd yn gallu llofnodi'n bersonol neu drwy ddirprwy mewn un lleoliad penodedig.

Bydd y ddeiseb ar ffurf taflenni llofnod unigol er mwyn sicrhau na fydd enwau'r llofnodwyr yn cael eu datgelu.

Os bydd o leiaf **10 y cant o'r rhai ar y gofrestr etholiadol yn yr etholaeth ac sy'n gymwys i lofnodi, yn llofnodi'r ddeiseb, bydd sedd yr Aelod Seneddol yn dod yn sedd wag yn awtomatig a bydd isetholiad yn dilyn.**

Ni fydd rhwystr cyfreithiol i atal y cyn Aelod Seneddol rhag sefyll yn yr isetholiad hwnnw heblaw na fydd bellach yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer ymgeiswyr.

Bydd modd herio canlyniad y ddeiseb neu'r ffordd y cafodd ei threfnu. Mae'r broses yn debyg i'r broses ar gyfer herio canlyniad etholiad, drwy wneud cwyn i lys arbennig.

3.3. Gwariant a chyllid ar gyfer ymgyrchoedd

Bydd dau gategori o ymgyrchwyr - ymgyrchwyr achrededig ac ymgyrchwyr heb eu hachredu:

Bydd yn rhaid i **ymgyrchwyr achrededig** gofrestru gyda'r swyddog canlyniadau, a byddant yn gallu gwario hyd at **£10,000**; a,

Bydd **ymgyrchwyr heb eu hachredu** yn gallu gwario hyd at £500 ar ymgyrchu ar y ddeiseb heb orfod gwneud datganiad ynglŷn â gwariant.

Yn ogystal, bydd yn rhaid i ymgyrchwyr achrededig:

- roi manylion eu gwariant i'r swyddog canlyniadau, a darparu derbynebau ar gyfer eitemau sy'n costio £20 neu fwy;
- cadarnhau rhoddion o fwy na £500; a,
- rhoi manylion unrhyw roddion dros £500 i'r swyddog canlyniadau.

4. Y materion sy'n codi

4.1. *Cwmpas y pŵer arfaethedig*

Ar 19 Ebrill 2012 rhoddodd y Gwir Anrhydeddus Nick Clegg AS, Dirprwy Brif Weinidog y Deyrnas Unedig, dystiolaeth i Bwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin. Gan ymateb i gwestiwn ynghylch pa mor ystyrlon yw'r cynigion, amddiffynnodd y Bil drafft yn wyneb cyhuddiadau ei fod yn rhy gul:

Q182 Fabian Hamilton: Deputy Prime Minister, good morning. We have had quite a few witnesses come to this Committee to talk about the powers of recall that the Government is proposing to introduce, and my question really is this: why are you bothering? It seems that the powers are very narrow. It seems that a lot of our witnesses-including people who are strong supporters of the Government-feel that they could be a lot wider, and wouldn't most MPs, if they were challenged in that way, simply want to resign and call a by-election rather than go through the tortuous process that you are proposing? Discuss.

Nick Clegg: Well, good morning. Plunging straight into the recall issue, I think the most candid answer is we are trying to strike a balance. I accept it is an art, not a science, and the balance is this: of course the political reality is that if an MP were to be accused of or found to have committed serious wrongdoing, even if they were not then subject to a custodial sentence, they might well fall on their sword politically anyway. The rules, as they currently exist, mean that if you are given a custodial sentence of more than 12 months, you are automatically excluded as well. So I accept that we are trying to fill the gaps, the holes that are left, and they are quite substantial. Firstly, of course, the current arrangements do not cover a custodial sentence of 12 months or less, and we are saying that one of the two triggers that could lead to a by-election would be if you are subject to a custodial sentence of 12 months or less. So that is one bit of the system which is at the moment unresolved that we are addressing.

The second one is that more complex area of serious wrongdoing, so that constituents don't just have to endure the continued presence of their local MP until the next General Election, when they might feel that that MP has forfeited a right to represent them because they have committed serious wrongdoing. The balance we are trying to strike is to make sure that constituents have the ability to trigger a by-election, sling that Member out, get a new MP in through a by-election, but not do so in a way that basically could allow the whole system to become-as it has done, frankly, in places, like California and elsewhere-just another kind of weapon for day-to-day, week-to-week political argy-bargy between the political parties. You have to have a certain degree of due process, otherwise the whole thing just becomes a sort of kangaroo court, really, where it is just whatever the opposition accuses you of doing, and

before you know it you are subject to a by-election. So that is why we have put in place these checks and balances.⁸

Gofynnodd Andrew Griffiths AS p'un a oedd y cyhoedd yn dal i weld y broses fel un a oedd yn nwylo Aelodau Seneddol yn y pen draw. Atebodd y Dirprwy Brif Weinidog fel a ganlyn:

I totally understand the risk is that that is the perception. I guess the most important argument against that is that you have the Commissioner for Standards, the Standards and Privileges Committee, who I don't think have been slouches in highlighting wrongdoing and making it very difficult for the House to somehow brush anything under the carpet. So it is not entirely up to a subjective judgment of the House where, of course you are right in theory, the risk is that everybody constantly lowers the bar until it is meaningless. The fact that we have these belt-and-braces arrangements in place, which have strengthened considerably in recent years-through the independence of the Commissioner, the rigour with which the Commissioner is investigating allegations of wrongdoing, and the Committee has also taken pretty robust action and made pretty robust recommendations on individual cases-should provide comfort that it is not just going to be a, "You scratch my back, I will scratch yours"-type arrangement.⁹

4.2. *Camwedd difrifol*

Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog fod dau sbardun a allai arwain at drefnu deiseb:

- dedfryd o 12 mis o garchar neu lai, a
- Tŷ'r Cyffredin yn darganfod bod Aelod Seneddol wedi cyflawni **camwedd difrifol**.

Nododd fod cryn dipyn o ddisgresiwn i Dŷ'r Cyffredin benderfynu beth yw camwedd difrifol.¹⁰ Cafwyd trafodaeth ynghylch pa fath o ymddygiad a fyddai hynny'n gyfystyr â chamwedd difrifol. Gofynnodd Fabian Hamilton AS y cwestiynau canlynol:

let us say you have a Member who spends most of his or her time here in the House of Commons, as we should, but actually does not go the constituency that much, does the bare minimum of advice surgeries but not enough for most constituents' needs, and does not turn up to a lot of events but is actually a very good parliamentarian. How does your legislation act in that case? For example, if a group of constituents say, "I have been trying to see my MP in an advice surgery and he or she is just not there often enough, but is always in the headlines"?"¹¹

Ymatebodd y Dirprwy Brif Weinidog drwy ddweud:

⁸ [Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, Ymchwiliad i Ddiwygio Aelodau Seneddol, Tystiolaeth Lafar HC1758-iv, 19 Ebrill 2012 \[fel ar 27 Ebrill 2012\] \(Saesneg yn unig\)](#)

⁹ [Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, Ymchwiliad i Ddiwygio Aelodau Seneddol, Tystiolaeth Lafar HC1758-iv, 19 Ebrill 2012 \[fel ar 27 Ebrill 2012\]](#)

¹⁰ Ibid.

¹¹ Ibid,

I have to say to you I would have thought it would be fairly unlikely that the House would regard just outright industrial-scale laziness as a matter of serious wrongdoing. I personally think someone who does that does not have much chance of getting re-elected in the next General Election.¹²

Gofynnodd Simon Hart AS p'un a yw'r darpariaethau'n ystyried Aelodau Seneddol sy'n awyddus i newid plaid, neu sy'n gwneud hynny, hanner ffordd drwy'r tymor. Ymatebodd y Dirprwy Brif Weinidog drwy ddweud na fyddai'n gyfystyr â chamwedd difrifol fel y rhagwelir yn y Bil.

I grynhoi, dywedodd Mark Harper AS, y Gweinidog dros Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol:

The way I look at it is this. We are all subject to a recall election once every five years. That is what should be the position for normal politics. This is really about: have you done something that is so serious that it is not appropriate to wait until voters have their normal opportunity to express an opinion on your performance? That is really the gap we are trying to close. The normal cut and thrust of politics, the voters always have an opportunity once every five years to say, "Do you want to continue with your MP or do you want to get a new one?" That is perfectly adequate for most things. This is about filling a gap, where someone has done something where people generally feel it is not appropriate-perhaps, if they did something at the early part of the Parliament-to wait four years to express a view. That is the gap we are trying to close. This is not a substitute for elections.¹³

Yn ei dystiolaeth, dywedodd John Lyon, y Comisiynydd Safonau Seneddol:

...may I just say that I do not believe that "a serious wrongdoing" is in itself a description of any particular conduct? It is a description of the gravity of any breach of that conduct, which in this case, is a breach of the rules set out in the code. To establish serious wrongdoing in these circumstances would, in my judgment, require a three-stage process. Briefly, the first stage is to establish what wrongdoing is, and that is, or should be, clearly set out in the law or the relevant code. To say in the code that Members should not engage in serious wrongdoing would not, in my judgment, be sufficient. The second stage is deciding in any particular case if such wrongdoing set out in the code or the law has indeed taken place. The third stage is deciding if any such wrongdoing is serious-so serious as to merit triggering the recall process.

In my view, the first stage-establishing in a code what is right, as well as what is wrong-is a matter for the House. The second stage-establishing wrongdoing in any particular case-is initially for the Commissioner. The third stage-deciding on seriousness-is for the House. Now, I have a role in the first two stages: in advising on a code and investigating an alleged breach; but in my view I should have no role in deciding on or advising on any disciplinary sanctions, be it recall for serious wrongdoing or anything else.¹⁴

¹² Ibid.

¹³ [Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, Ymchwiliad i Ddiwygio Aelodau Seneddol, Tystiolaeth Lafar HC1758-iv, 19 Ebrill 2012 \[fel ar 27 Ebrill 2012\] \(Saesneg yn unig\)](#)

¹⁴ [Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, Ymchwiliad i Ddiwygio Aelodau Seneddol, Tystiolaeth Lafar HC1758-ii, 19 Ionawr 2012 \[fel ar 11 Mai 2012\] \(Saesneg yn unig\)](#)

Dyweddodd Syr Keith Barron AS, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Breintiau, fod ganddo bryderon dirfawr ynghylch union ystyr 'camwedd difrifol', y tu allan i'r cod troseddol.¹⁵

5. Darpariaethau'n ymwneud â Chymru a'r Cynulliad

Yn y trafodaethau yn Nhŷ'r Cyffredin codwyd y cwestiwn, os derbynnir yr egwyddor o alw Aelodau Seneddol yn ôl ar gyfer San Steffan, y dylid ei hymestyn i'r deddfwrfeydd datganoledig hefyd:

Thomas Docherty (Dunfermline and West Fife) (Lab): A number of Scottish newspapers have revealed a shocking history of domestic violence and child beating by a nationalist MSP, Mr Bill Walker, stretching over 30 years. Mr Walker, like all who commit domestic violence acts, has arrogantly refused to take responsibility for his actions and will not resign his seat. Will the Leader of the House confirm whether the Government will consult the Scottish Parliament on extending any new provisions for the recall of MPs to MSPs so that my constituents can be represented in the Scottish Parliament by a fit and proper person?

Sir George Young: I understand the hon. Gentleman's concern. He will know that we have published a draft recall of MPs Bill. In fact, this morning the Parliamentary Secretary, Cabinet Office, my hon. Friend the Member for Forest of Dean (Mr Harper), gave evidence to the Political and Constitutional Reform Committee, which is doing pre-legislative scrutiny. We have said that we will consider extending recall to the devolved legislatures, including the Scottish Parliament, as part of our overall consideration of responses to the inquiry. In the first instance we want to honour our commitment to the recall of MPs, but we have not ruled out extending it to the devolved legislatures at a later stage.¹⁶

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch p'un a fyddai'r egwyddor yn ymestyn i swyddogion etholedig eraill, dywedodd Mark Harper AS, wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol:

We set out MPs first, because that is what the commitment in our manifestos was about. We made it clear that we want to look at all the sponsors we have had to the consultation on this and what you have said, and then we will take a view of whether it is appropriate either at the same time to set out a recall mechanism for other officers in other roles, or whether that is something that ought to happen at a later stage. We certainly have not ruled it out, but we simply wanted to tackle MPs first, because that is what we have committed to do. We didn't make a commitment more widely. But clearly I know part of the evidence that you have taken, and whatever it will be, about other elective positions-and we will have to take a view when bringing forward proposals, do we want to basically deal with MPs first and leave others until later, or do we want to deal with them all at the same time? So obviously if you have thoughts about that, and about appropriate models about whether it is directly transferable or whether it needs to be different, that will of course be very helpful for the Government's deliberations.¹⁷

¹⁵ Ibid.

¹⁶ [Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, 19 Ebrill 2012 c540 \[fel ar 27 Ebrill 2012\] \(Saesneg yn unig\)](#)

¹⁷ [Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol, Ymchwiliad i Ddiwygio Aelodau Seneddol, Tystiolaeth Lafar HC1758-iv, 19 Ebrill 2012 \[fel ar 27 Ebrill 2012\] \(Saesneg yn unig\)](#)

6. Prosesau galw yn ôl mewn systemau gwleidyddol eraill

Cymharol brin yw'r gwledydd ar hyd a lled y byd lle y defnyddir prosesau galw yn ôl, ac mae'r enghreifftiau mwyaf adnabyddus i'w gweld mewn taleithiau penodol yn Unol Daleithiau America. Fe'u defnyddir hefyd mewn chwech o blith y 26 canton yn y Swistir, Venezuela, Ynysoedd y Philipinau, Talaith Columbia Brydeinig yng Nghanada, De Korea, Taiwan a'r Ariannin ymysg eraill.¹⁸

Yn **Unol Daleithiau America**, mae 19 o daleithiau'n caniatáu galw swyddogion taleithiau yn ôl ac mae 28 o daleithiau yn caniatáu galw swyddogion lleol yn ôl.⁵ Mewn llawer o daleithiau mae tri cham i'r broses galw yn ôl:

- deiseb galw yn ôl;
- pleidlais galw yn ôl;
- etholiad newydd. Mewn rhai taleithiau caiff camau (ii) a (iii) eu cymryd ar yr un pryd.

Awgryma tystiolaeth fod prosesau galw yn ôl wedi cael eu defnyddio'n amlach ac yn fwy llwyddiannus ar lefel leol o gymharu â lefel daleithiol. Hyd yma dim ond dau achos o alw Llywodraethwr Talaith yn ôl a fu'n llwyddiannus; un yng Ngogledd Dakota yn 1921 pan alwyd Lynn Frazier¹⁹ yn ôl a'r llall yng Nghaliffornia yn 2003 pan alwyd Gray Davis yn ôl ar sail y ffordd yr oedd yn rheoli'r gyllideb.²⁰ Llwyddodd y llywodraethwr Scott Walker o Wisconsin i oroesi etholiad galw yn ôl ym mis Mehefin 2012. Yn yr achos hwn y momentwm y tu ôl i'r broses galw yn ôl oedd y gwrthwynebiad i'r newidiadau yr oedd yn eu gwneud i hawliau cyflogaeth a thoriadau yn y gyllideb.²¹

Mae'r weithdrefn galw yn ôl wedi cael ei defnyddio'n amlach mewn perthynas â deddfwyr taleithiol, ond anaml y mae'n llwyddiannus. Yng Nghaliffornia, talaith lle nad yw'n ofynnol cael sail benodol er mwyn dechrau deiseb galw yn ôl, mae sawl ymgais wedi'i gwneud i sbarduno etholiad galw yn ôl, ond dim ond pum deiseb sydd wedi bod yn llwyddiannus. Ar ôl yr etholiadau galw yn ôl hyn, mae dau seneddwr wedi cael eu galw yn ôl a thri wedi goroesi'r bleidlais galw yn ôl.²²

O dan y model a ddefnyddir yn **Venezuela**, gall unrhyw gynrychiolydd etholedig gael ei alw yn ôl, ond dim ond ar ôl i hanner tymor y swydd fynd heibio. Er mwyn i ddeiseb galw yn ôl fod yn llwyddiannus rhaid cael cefnogaeth o leiaf 20 y cant o'r

¹⁸ [Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Recall Elections, Nodyn Safonol SN/PC/0589, 13 Hydref 2011 \[fel ar 7 Mehefin 2012\]](#)

¹⁹ [The Bismarck Tribune, "California Re-call drive puts former N.D. Gov. Lynn Frazier in spotlight", 5 Gorffennaf 2003 \[fel ar 7 Mehefin 2012\]](#)

²⁰ [PBS, Online Newshour, The Recall of Gray Davis \[fel ar 7 Mehefin 2012\]](#)

²¹ [One Wisconsin Now, 12 Reasons to recall Scott Walker in 2012 \[fel ar 7 Mehefin 2012\]](#)

²² [Llywodraeth EM, Galw Aelodau Seneddol yn Ôl, Bil Drafft, Cm.8241, Rhagfyr 2011 \[fel ar 27 Ebrill 2012\] \(Saesneg yn unig\)](#)

etholwyr cofrestredig yn etholaeth deiliad y swydd.²³ Os bydd y trothwy hwn yn cael ei gyrraedd, mae hyn yn sbarduno refferendwm ynghylch p'un a ddylai deiliad y swydd wasanaethu am weddill ei dymor. Cynhaliwyd refferendwm o'r fath yn 2004 mewn perthynas ag Arlywydd Chavez.²⁴

Mabwysiadodd talaith **Columbia Brydeinig** yng Nghanada broses galw yn ôl yn 1995 drwy'r Ddeddf *Recall and Initiative Act 1995*. Rhoddodd hyn y pŵer i bleidleiswyr gael gwared ar eu Haelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol rhwng etholiadau. O dan y Ddeddf *Recall and Initiative Act 1995*, mae deiseb galw yn ôl lwyddiannus yn sbarduno proses o gael gwared ar Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol. Os bydd y Prif Swyddog Etholiadol yn penderfynu bod nifer ddigonol o lofnodion dilys ar ddeiseb galw yn ôl er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf, bydd yr Aelod yn rhoi'r gorau i ddal y swydd a daw'r sedd yn wag. Rhaid galw isetholiad o fewn 90 o ddiwrnodau.²⁵

Mae 24 o geisiadau galw yn ôl wedi eu cymeradwyo er 1995 ond methodd 23 o blith y 24 oherwydd na chasglwyd digon o lofnodion. Aeth dau ymlaen i'r cam gwirio. O blith y rhain canfuwyd nad oedd gan un ohonynt ddigon o lofnodion a chafodd yr ail ei atal oherwydd i'r Aelod dan sylw ymddiswyddo.

Un o'r prif wahaniaethau rhwng yr arfer mewn llawer o wledydd eraill a'r hyn a gynigir gan Lywodraeth y DU yw bod gwledydd eraill, fel yn yr enghraifft uchod, yn caniatáu galw cynrychiolwyr etholedig yn ôl am resymau gwleidyddol. Dim ond ar gyfer camwedd difrifol y mae'r DU yn cynnig y weithdrefn hon.

²³ Ibid.

²⁴ [Newyddion y BBC, Q & A: Venezuela's recall referendum, 16 Awst 2004 \[fel ar 7 Mehefin 2012\]](#)

²⁵ [Etholiadau Columbia Brydeinig, Tudalen we ar alw Aelodau yn ôl \[fel ar 7 Mehefin 2012\] \(Saesneg yn unig\)](#)